OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 1583 (Cy.158)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed - - - -	*18 Mehefin 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*18 Mehefin 2008*
Yn dod i rym - -	*19 Mehefin 2008*

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) (Diwygio) 2008; maent yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 19 Mehefin 2008.

Diwygio

2. Yn rheoliad 17 o Reoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008(**3**) dileer yr ail gyfeiriad at "yr Ysgrifennydd Gwladol" ac yn ei le rhodder "Weinidogion Cymru".

Elin Jones
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

18 Mehefin 2008

(**1**) O.S. 2005/2766. Yn rhinwedd adrannau 59(1) a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 2008/1090 (Cy.116).